***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3 E+W

## DIWYGIADAU MEWN PERTHYNAS Â RHAN 2: PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

## RHAN 2 E+W

### DIWYGIADAU MEWN PERTHYNAS Â PHENNOD 2 O RAN 2: CYNGHORAU CYMUNED CYMWYS

*Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)*

9 Yn Neddf 1972, yn adran 137(9) (pŵer awdurdodau lleol i fynd i wariant at ddibenion penodol nad ydynt wedi eu hawdurdodi fel arall), ym mharagraff (b) ar ôl "community council" mewnosoder "which is not an eligible community council for the purposes of Part 2 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (general power of competence)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** Atod. 3 para. 9 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

*Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22)*

10 Yn Neddf 2000, hepgorer adrannau 2 a 3 (pŵer cynghorau cymuned i hybu llesiant).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I4** Atod. 3 para. 10 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)** (ynghyd ag ergl. 7)

*Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (p. 41)*

11 (1) Mae Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 55 (hawliadau hwyr: gwrthod rhoi cymorth), yn is-adran (4) hepgorer paragraff (c) (ond nid yr "and" sy'n ei ddilyn).

(3) Yn Atodlen 3 (cadw cymorth yn ôl a'i dynnu'n ôl), ym mharagraff 1(1) hepgorer paragraff (k).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 3 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I6** Atod. 3 para. 11 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

*Deddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26)*

12 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 2. (See end of Document for details)*

(2) Yn adran 93 (pŵer i godi ffi am wasanaethau disgresiynol), yn is-adran (7) hepgorer paragraff (c).

(3) Yn Atodlen 3 (diwygio pwerau penodol), hepgorer paragraff 12.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 3 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I8** Atod. 3 para. 12 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

### *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)*

13 (1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 127 (deddfiadau sy'n atal cyngor cymuned rhag arfer ei bŵer llesiant).

(3) Hepgorer Pennod 9 o Ran 7 (achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol).

(4) Yn adran 172 (gorchmynion a rheoliadau)—

(a) yn is-adran (2)(a), hepgorer "neu 140";

(b) yn is-adran (2)(b) hepgorer "127 neu".

(5) Hepgorer adran 173 (y weithdrefn sy'n gymwys i orchmynion penodol o dan adran 127).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 3 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I10** Atod. 3 para. 13 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

### *Deddf Lleoliaeth 2011 (p. 20)*

14 Yn Neddf Lleoliaeth 2011, yn Atodlen 1 (diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 2 a 4 a'r croesbennawd sy'n dod o flaen paragraff 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 3 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I12** Atod. 3 para. 14 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

### *Y Ddeddf hon*

15 Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, ym mharagraff 1 hepgorer is-baragraffau (2) a (3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 3 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I14** Atod. 3 para. 15 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(r)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 2.